


Go4Schools – Canllaw i rieni

Cyflwyniad

Mae'r ysgol yn defnyddio system ar-lein o'r enw Go4Schools er mwyn cofnodi gwybodaeth am gyrhaeddiad ac ymddygiad ein disgyblion. Mae hyn yn ein galluogi fel ysgol i fonitro a thracio cyrhaeddiad ac ymddygiad pob disgybl. Mae hefyd yn ein galluogi i rannu gwybodaeth efo rhieni, a hynny'n rheolaidd yn hytrach na dibynnu ar adroddiadau tymhorol yn unig.

Logio mewn

Mae'n bosibl defnyddio Go4Schools drwy'r wefan neu'r ap. Mae'n rhaid bod wedi cofrestru ar y wefan cyn y gellir defnyddio'r ap. I logio mewn am y tro cyntaf, dewiswch yr opsiwn '**Parents login**' o dan 'login' a defnyddio'r cyfeiriad ebost **sydd ar system yr ysgol**. Os ydych yn cael trafferth logio mewn, cysylltwch a'r ysgol. (Y broblem fel arfer ydi nad yw'r cyfeiriad ebost yr un fath a'r un sydd ar system yr ysgol). Unwaith eich bod wedi cael mynediad i'r wefan, gallwch lawrlwytho'r ap. Bydd hwn yn rhoi gwybodaeth gryno ac ambell neges ichi ond cofiwch fod angen mynd ar y wefan i gael gwybodaeth lawn a gweld adroddiadau eich plentyn.




Trosolwg

Y peth cyntaf welwch ar y wefan yw'r **trosolwg** (overview). Mae hyn yn cynnwys **amserlen** eich plentyn, cofnod **presenoldeb*** a chrynodeb o **bwyntiau gwobrwyo/ ymddygiad** hyd yma. Gallwch glicio ar un o'r rhain i gael mwy o wybodaeth, e.e. i weld amserlen lawn eich plentyn neu i weld sut yn union gafwyd y pwyntiau gwobrwyo / ymddygiad.

* Mae'r wybodaeth am bresenoldeb yn cael ei throsglwyddo o system gofrestru SIMS. Gan nad yw hyn yn digwydd yn ddyddiol, mae'n gallu cymryd amser i'r wybodaeth gywir ymddangos.

Overview



- Overview
- Attendance
- Behaviour
- Inbox
- Progress
- Reports
- Timetable
- Documents
- Consents

Cynnydd

Ar ochr chwith y ddalen, fe welwch fwydlen. Dewiswch **'progress'** er mwyn gallu gweld sut mae eich plentyn yn gwneud yn y pynciau.

Bydd dau adroddiad byr ac un adroddiad hir yn cael ei wneud ar bob disgybl 7 ac 8 yn ystod y flwyddyn academaidd, a phan fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, byddwn yn gadael ichi wybod drwy lythyr. I weld yr adroddiad, rhaid mynd ar y wefan a dewis **'reports'** o'r fwydlen.

Deall yr asesiadau

Gan fod blwyddyn 7 ac 8 yn dilyn cwricwlwm newydd ers dechrau Medi 2023, NID OES LEFELAU yn cael eu defnyddio bellach. Mae gan bob ysgol yr hawl i ddewis sut maent am asesu, ac yn Ysgol Morgan Llwyd, rydym yn dilyn y dull canlynol, sef rhoi gradd am yr **YMDRECH** roddwyd i'r dasg (**A-Ch**) a gradd am **SAFON** y dasg (**1-4**). Bydd gan bob adran gridiau i ddiffinio'r graddau safon i sicrhau cysondeb a sicrhau cynnydd wrth fynd fyny'r ysgol. Ym mlwyddyn 9, byddwn yn dechrau pontio'r graddau safon gyda graddau TGAU. Dyma'r graddau:

YMDRECH		SAFON	
A	Ymdrech ardderchog	1	Gwaith o safon uchel iawn
B	Ymdrech dda	2	Gwaith o safon dda
C	Ymdrech foddhaol	3	Gwaith o safon is
CH	Ymdrech wael	4	Gwaith o safon isel

Cofnodi'r asesiadau ar Go4Schools

Wrth glicio ar **'Progress'**, fe gewch yn gyntaf grynodedb o'r graddau **ymdrech** ar gyfer pob pwnc. Bydd sawl un o'r rhain yn wag ar hyn o bryd, ond wrth i adrannau ddechrau gosod a marcio asesiadau ar ddiwedd unedau o waith, bydd mwy o raddau'n ymddangos. Rydym yn disgwyl i bob disgybl gyrraedd o leiaf gradd B (ymdrech dda) ym mhob tasg. Mae gradd 'C' neu 'Ch' yn awgrymu nad yw'r disgybl wedi rhoi ymdrech ddigonol i'r dasg.

Progress

Summary - Cyfredol / Current

Subject name Grade value Progress

Addysg Gorrffordl	Celf a Dylunio	Cerdd	Cymraeg	Drama	Dyniaethau	Ffrangeg	Gwyddoniaeth	Mathemateg	Project	Saesneg	Technoleg
A	A	C	B	-	B	-	B	A	-	B	-

Residual legend

Current model Lower is nà'r targeted / Well below target Is nà'r targeted / Below target Ar Darged / On target Uwch nà'r targeted / Above target

O dan y crynodeb, fe welwch adran i bob pwnc. Wrth glicio ar y pwnc, fe welwch yr holl dasgau sydd wedi eu hasesu ar gyfer y pwnc hwnnw, ac wrth glicio ar dasg, fe fyddwch yn gweld y radd **ymdrech** (A-Ch) ar gyfer y dasg honno a'r radd llwyddiant am **safon** y gwaith (1-4)

Cymraeg
View Markbook (BY/CY), Ms I Jones

Grades

Name	Grade
Targed Athro / Teacher Target	B
Cyfredol / Current	B
Lefel Cyfredol 2022/23	-

Residual Legend
Current nodol

Marksheet summary View marksheet in detail View asesiad 1

Marksheets

Marksheet	Mark	Grade	Contributes to the Cyfredol / Current grade
Portread o arwr	-	B	100%
Ymddiriedolaeth	-	-	-
Targ 3	-	-	-
Targ 4	-	-	-
Targ 5	-	-	-



Portread o arwr
This marksheet contributes 100% to the Cyfredol / Current grade.

Overall	Mark	Grade
Take the weighted average of all assessments	-	B
Assessment		
Ymdrech	-	B
Asesiad	-	2

Gweld Adroddiadau

Deirgwaith y flwyddyn, bydd athrawon yn llunio adroddiad ar gynnydd eich plentyn. Bydd dau o'r adroddiadau hyn yn 'fyr', hynny yw, yn cynnwys graddau ond heb sylwadau. Bydd yr adroddiad 'hir' yn cynnwys sylwadau. Bydd eboost yn cael ei anfon pan fydd yr adroddiad yn barod ar Go4Schools, ond gallwch ddisgwyl adroddiad fel a ganlyn:

	Adroddiad 1	Adroddiad 2	Adroddiad 3
Blwyddyn 7	Rhagfyr (Byr)	Chwefror (Byr)	Mehefin (Hir)
Blwyddyn 8	Rhagfyr Byr)	Ebrill (Hir)	Mehefin (Byr)

Os oes pryder

Gobeithio y byddwch, fel y byddwn ni, yn canmol ymdrechion a phwyntiau gwobrwyo eich plentyn. Os ydych yn pryderu am unrhywbeth ar Go4Schools, cofiwch gysylltu efo ni. Gall fod yn broblem dechnegol (efo'r wefan neu'r ap), pryder am bwynt(iau) ymddygiad neu bryder am gyrraedd. Cysylltwch efo'r pennaeth blwyddyn fel man dechrau a bydd o / hi yn cyfeirio eich pryder at y person cywir. Cofiwch hefyd yn gallwch gyfeirio eich plentyn am gymorth lles neu gymorth dysgu drwy wefan yr Hwb Bugeiliol neu wefan yr Hwb Dysgu. Gellir cyrraedd y ddwy drwy fynd i wefan yr ysgol a dewis 'Ein Hysgol Ni'.

Go4Schools - <https://www.go4schools.com/schools>

Gwefan yr ysgol - [Ysgol Morgan Llwyd, Ysgol Uwchradd Gymraeg, Wrecsam](#)

Eboost yr ysgol – bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk

Gwefan yr Hwb Dysgu - [Parents & Guardians \(google.com\)](#)

Gwefan yr Hwb Bugeiliol - [Rhieni/Parents \(google.com\)](#)